Gelyn Adolf Hitler

Dewrder / gosod esiampl

Dietrich Bonhoeffer: 1906–1945

Mae'n bur debyg eich bod wedi clywed eich taid a nain yn sôn am gyfnod y rhyfel. Roedd hi'n gyfnod anodd iawn. Roedd bwyd yn brin a phobl yn byw mewn ofn. Roedd y plant o'r trefi mawr yn dod i fyw tros gyfnod y rhyfel i gefn gwlad Cymru. Yr ifaciwîs oedden nhw'n cael eu galw. Byddai awyrennau o'r Almaen yn hedfan dros Brydain ac yn bomio'r dinasoedd mawr. Roedd y mwyafrif o bobl yr Almaen yn cefnogi'r arweinydd, sef Adolf Hitler. Ond roedd rhai unigolion yn ei erbyn. Mae'r stori hon yn sôn am un o'r rheiny. Fe safodd Dietrich Bonhoeffer yn gadarn yn erbyn Hitler.

Doedd rhieni Bonhoeffer ddim yn bobl grefyddol iawn. Meddyg oedd ei dad, a'i fam yn ferch i hanesydd. Roedd ei nain ar ochr ei fam wedi bod yn ddisgybl i'r cerddor enwog Franz Liszt. Er nad oedden nhw ddim yn bobl grefyddol, fe benderfynodd Dietrich pan oedd yn bedair ar ddeg oed ei fod am fod yn weinidog. Roedd hyn yn dipyn o sioc i'w rieni a'i deulu.

"Pam wyt ti isio bod yn weinidog?" meddai'i fam, "mi fase'n well i ti chwilio am swydd arall."

"Rwyt ti'n fachgen galluog iawn," meddai ei dad, "beth am i ti fynd yn feddyg neu yn wyddonydd? Mi faset ti'n gwneud dy ffortiwn."

Ond gwrthod gwrando ar ei rieni wnaeth Dietrich a mynd ymlaen i'r brifysgol i astudio i fod yn weinidog. Pan oedd yn fyfyriwr dangosodd ei fod yn fyfyriwr arbennig iawn. Yn fuan iawn, fe gafodd swydd fel athro yn y coleg. Ond doedd o ddim yn hapus iawn yn y gwaith hwnnw. Fe ddaeth i Lundain a bu'n weinidog ar ddwy eglwys yn y ddinas honno.

Pan ddechreuodd yr Ail Ryfel Byd roedd Dietrich yn awyddus iawn i fynd yn ôl i'r Almaen i gael bod efo'i bobl ei hun. Yn y cyfnod hwn, roedd yn dweud wrth ei bobl fod Adolf Hitler yn ddyn drwg. Penderfynodd milwyr Hitler fod rhaid ei ddal a'i garcharu. Treuliodd ddeunaw mis yn y carchar. Ar y dechrau, doedd o ddim yn cael ysgrifennu at ei rieni. Ond fe ddaeth yn ffrindiau â wardeniaid y carchar ac ar ôl chwe mis fe gafodd gyfle i

ysgrifennu llythyrau at ei rieni a'i ffrindiau. Roedd hefyd yn cadw dyddiadur manwl o'r hyn oedd yn digwydd yn y carchar.

Ar ôl cyfnod yn y carchar yn Tegel, fe gafodd ei symud i garchardai eraill. Ymhob un o'r carchardai byddai'n cael cyfle i ysgrifennu llythyrau, dyddiaduron a hefyd nifer o lyfrau.

Un bore, yn gynnar, daeth milwyr i mewn i'r carchar.

"Y carcharor Bonhoeffer," meddent.

Gwyddai yntau a'i gyd-garcharorion beth oedd yn mynd i ddigwydd. Gafaelodd dau o'r milwyr ynddo a'i arwain tuag at ddrws y gell. Meddai Bonhoeffer wrth ei gyd-garcharor, Payne Best, "Dyma'r diwedd, ond i mi dyma gychwyn bywyd newydd."

Hwn oedd y tro olaf iddo siarad â'i ffrindiau. Fe gafodd ei grogi ar goeden y tu allan i'r carchar. Erbyn heddiw, mae plac ar y goeden honno gyda'r geiriau hyn arni,

'Dietrich Bonhoeffer, tyst i Iesu Grist ymhlith ei ffrindiau.'

"Dywedodd Iesu wrtho, 'Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd'."

Ioan 14:6

Arglwydd Iesu Grist,
Buost ti'n dlawd
ac mewn trallod, yn garcharor ac wedi dy adael fel fi.
Yr wyt ti'n aros gyda mi
pan fydd pawb arall wedi fy ngadael;
nid wyt ti'n anghofio amdanaf, yr wyt yn chwilio amdanaf.
Yr wyt yn ewyllysio fy mod yn d'adnabod di
ac yn troi atat.
Arglwydd, clywaf dy alwad a dilynaf di.
Helpa di fi.
Amen.

(Dietrich Bonhoeffer)

Beth oedd ystyr geiriau olaf Bonhoeffer?
"Dyma'r diwedd, ond i mi dyma gychwyn bywyd newydd."